

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Hydref 1af 2013

Presennol: Huw Antur (Cadeirydd), Dewi Jones (Is gadeirydd), Ian Trow, Huw P Roberts, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Catrin Roberts

Alan Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1198 Croeso a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alwyn Roberts, Heledd Jones, Karl Jones a Rhodri Jones

1199 Cafwyd cyflwyniad gan Ceidwaid Chwarae, Lucy a Siân, sydd yn chwarae gyda phlant yr ardal tan fis Mawrth. Cynllun y Loteri Fawr yw hwn a'r bwriad yw darparu cyfleoedd i blant chwarae yn y ffordd hen ffasiwn, yn hytrach na chwarae gyda gemau cyfrifiaduron yn y tŷ. Roeddent yn canmol cefnogaeth rhieni'r ardal dros yr haf, a byddant yn croesawu unrhyw ymateb.

1200 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1201 Nid oedd datganiadau o fuddiant.

1202 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Medi 3ydd 2013.

1203 Materion yn codi o gofnodion Medi:

- i. 1176.i Toiledau: mae darparu arwydd yn gwahodd cyfraniadau mewn llaw. Er holi, nid oes ymateb pellach wedi dod gan swyddogion Cyngor Gwynedd yn dilyn y cynnig i brynu'r toiledau. **Gweithredu: Clerc a'r Swyddog Ariannol**
- ii. 1180.iii Fflatiau: derbyniwyd neges oddi wrth Rhys Jones, Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn mynegi'r bwriad i uwchraddio'r fflatiau wrth iddynt ddod yn rhydd gan ddisgwyl y bydd pobol leol yn dymuno symud iddynt. Cynhaliodd y Cynghorydd Alan Evans ynghyd ag eraill gyfarfod pellach a holwyd a ellid cyfyngu'r defnydd i bobl oedrannus. Diolchwyd i Alan Evans am ei ddycnwch wrth fynd i'r afael â'r mater hwn. Penderfynwyd anfon at y Swyddog gorfodaeth i dynnu sylw at y baw ci ar y llain tu nol i'r fflatiau. **Gweithredu: Clerc**
- iii. 1186 Yr arwydd wrth gulfan bws wrth yr Hen Felin – mae'r mater yn derbyn sylw swyddogion Cyngor Gwynedd.
- iv. 1195 6 viii Safle'r lloches bws – diolchwyd i Karl Jones, Alwyn Roberts ac Alan Evans am ymweld â'r safle ac fe weithredir ar eu hargymhelliad. **Gweithredu: Alan Evans**
- v. 1196.iv Ymweliad safle: bydd y Cadeirydd, Beryl Hughes Griffiths, Alan Evans a'r Clerc yn bresennol i drafod gor-yrru yn y pentref ac ar hyd yr A494
- vi. 1196 v Pont droed y Deildre – derbyniwyd ymateb gan Liz Haines y gellid gosod weiren i leihau'r perygl o blant yn disgyn rhwng y rheiliau.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

1204 **Is bwyllgor Cyllid/ Fynwent Newydd** - derbyniwyd y Cofnodion.

- i. Cytunodd rhai aelodau i greu llwybr byr rhwng y maes parcio â llwybr y fynwent.
Gweithredu: Alan Evans, Dewi Jones a Karl Jones
- ii. Cytunwyd i roi ystyriaeth ymhen y mis i'r awgrymiadau ar leihau'r risg ariannol i'r Cyngor Cymuned yng nghyfrifon y Fynwent.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth na ellir bellach bwrcasu safle ymlaen llaw. Cytunwyd bod angen cofnodi'n ofalus y safleoedd a bwrcaswyd yn y gorffennol.
- iv. Cytunwyd i edrych eto ar rôl y Swyddog Ariannol a Chlerc y Fynwent ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gofynnwyd i'r Swyddog ariannol lunio swydd-ddisgrifiad o rôl Clerc y Fynwent.
- v. Cytunwyd y dylai costau a chyflog Clerc y Fynwent cael eu cynnwys yng nghyfrifon y fynwent o hyn ymlaen, ac felly byddant yn rhan o'r diffyg / gwarged yn y cyfrifon hynny.

1205 **Gohebiaeth:**

1. Parc Cenedlaethol Eryri:

- i Cymeradwywyd Cais NP5/71/443 Cynllun Trydan Dŵr Afon Ddyfrdwy, Llwyn Gwern
- ii Cymeradwywyd Cais NP5/71/444 Cynllun Trydan Dŵr Nant Eglwysarn, Dolhendre

2 Gwynedd: gwahoddwyd y Cyngor i wneud cais erbyn 15/11/13 os oes diffyg yn y Cyfrif Claddu.

3 Heddlu: Derbyniwyd e-bost am leihau galwadau i Ganolfan Cyfathrebiadau'r Heddlu.

4 Llywodraeth Cymru:

- i Nodwyd derbyn Rhaglen Arolygiad Etholiadol, sydd ddim yn berthnasol ar hyn o bryd i Wunedd.
- ii Nodwyd derbyn Adolygiad Blynyddol Pwyllgor Cymru'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, sy'n esbonio beth y gwnaethpwyd ar gyfer defnyddwyr dŵr yn 2012/13.

5 Un Llais Cymru:

- i. Cyflwynodd Huw P Roberts adroddiad o Bwyllgor Ardal Meirionnydd 25/9/13, gan grybwyll pryderon Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd, ac yn arbennig y drefn newydd o dalu budd-dal yn fisol a'r budd-dal hwnnw yn seiliedig ar nifer llofftidd gweigion. Roedd y cynrychiolwyr hefyd wedi codi pryder am y gwasanaeth ambiwlans a'r drefn o ddehongli'r angen pan ddaw galwad am ambiwlans. Croesawyd Luned Evans,

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

Swyddog datblygu Un Llais Cymru ar gyfer Gogledd Cymru. Diolchwyd i Huw P Roberts am ei adroddiad.

ii. Derbyniwyd gwybodaeth am hyfforddiant yn yr Wyddgrug ac yn Llangefni

6 Erail: Derbyniwyd cylchlythyron: Adroddiad Blynyddol Cymdeithas Tai Clwyd; Agor Drysau – Shelter

1206 Materion ariannol

- i Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
(Mynwent: £4,500; Cyfrif Canolog: £18,000 yn cynnwys arian a dderbyniwyd tuag at y lloches bws)
- ii Cytunwyd i dalu biliau'r mis.
(Cyflog 3 mis y Clerc; costau teithio Huw P Roberts i gyfarfod Un Llais Cymru)
- iii Cytunwyd i anfon siec am £80 fel cyfraniad Cyngor Cymuned Llanuwchllyn at y gofeb i filwyr o Gymru yn Ypres.
- iv Bil trydan y toiledau gan British Gas. Ar ôl peth gohebu, cytunodd y cwmni i newid yr anfoneb i adlewyrchu gwir ddefnydd o'r trydan. Diolchwyd i Aled Richards am gadw cyfrif manwl ers 2010.
- v Cytunwyd gydag argymhellion yr is-bwyllgor Cyllid i dalu'r Swyddog Ariannol/ Fynwent a'r Clerc yn unol ag argymhellion SLCC a anfonwyd i sylw'r Cyngor gan Un Llais Cymru, yn weithredol o Ebrill 2014.

1207 Partneriaeth Penllyn: Adroddodd y cynrychiolwyr fod gwaith gydag asedau'r Parc a Gwynedd yn parhau. Bydd adeiladwyr yn gweithio ar yr Henblas o fewn yr wythnosau nesaf, ac mae Swyddog Marchnata wedi ei hapwyntio rhan amser a dros dro i hyrwyddo'r gwasanaethau fydd yn y Ganolfan. Hefyd, mae'r bartneriaeth yn cydweithio gyda Shan Parry o Adran Iaith y Llywodraeth i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym Mhenllyn ac yn arbennig ym musnesau'r dref.

1208 Cytunwyd i roi materion lleol isod ar agenda'r cyfarfod nesaf:

- i. Ystyried croesawu Eisteddfod yr Urdd 2014
- ii. Ystyried cadw dogfennau'r Cyngor yn ddiogel

1209 Mater brys

Mynegwyd pryder am golli'r gwasanaeth bysiau gan Arriva, yn arbennig y daith i ysbyty Wrecsam. Derbyniwyd ymateb sydyn oddi wrth Dafydd Elis Thomas AC a chytunwyd i anfon ato i'w gefnogi yn ei ymdrechion i gael gwasanaeth trafndiaeth integredig.. Cytunodd y Cyngorydd Alan Jones Evans godi'r mater gydag Uned

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Antur

Trafnidiaeth Gwynedd a chyfarwyddwyd y Clerc i ysgrifennu'n ffurfiol at yr Uned gan ofyn am eu hymateb i'r argyfwng. Awgrymwyd anfon copi o'r llythyr at gynghorau eraill ym Mhenllyn er mwyn cryfhau'r llais. **Gweithredu: Clerc, Alan Jones Evans**

Amser gorffen: 10.10pm